



# Gweithwyr gofal cartref ar y Gofrestr - 1 Ebrill 2021



## Cofrestru a COVID

- O 1 Ebrill 2020, daeth yn orfodol i weithwyr gofal cartref gofrestru os ydynt yn gweithio yng Nghymru.
- I gefnogi'r sector yn ystod COVID, nid ydym wedi tynnu unrhyw un o'r gofrestr am fethu adnewyddu eu cofrestriad. Felly, mae'n bosibl bod nifer uwch wedi'u cofrestru na'r rhai sy'n parhau i weithio yn y sector ar hyn o bryd.
- 22,131 o weithwyr gofal cartref ar y Gofrestr ar 1 Ebrill 2021.
- 2,968 o weithwyr wedi ymuno â'r gofrestr a 474 wedi ymadael â hi ers 1 Mehefin 2021.



## Pa gymwysterau sydd gan weithwyr?

- Mae gan 59% o weithwyr gymhwyster ymarfer.
- Mae 28% ohonynt wedi cofrestru ar ôl cwblhau'r llwybr ymsefydlu a bydd yn ofynnol iddynt gwblhau cymhwyster o fewn tair blynedd.
- Mae 13% ohonynt wedi cofrestru ar sail datganiad gan eu rheolwr yn cadarnhau'u profiad a'u cymhwysedd (sef cymhwysedd wedi'i gadarnhau).



## Ble mae gweithwyr yn cael eu cyflogi?

- Mae'n hysbys bod 95% o weithwyr mewn gwaith ar hyn o bryd.
- Mae 51% o'r rhain yn gweithio yn y sector preifat, 27% ohonynt yn y trydydd sector ac mae 20% ohonynt yn gweithio i awdurdod lleol.
- Roedd 36% ohonynt wedi dechrau yn eu rôl yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- Roedd 22% ohonynt wedi bod yn eu rôl ers dros ddeng mlynedd.



## Beth yw proffil y gweithwyr?

- Mae'r gweithwyr yn 44 oed ar gyfartaledd ac mae niferoedd weddol debyg ym mhob grŵp oedran.
- Mae 83.5% o'r gweithwyr yn fenywaidd ac 16.5% yn wrywaidd.
- Mae 97% o weithwyr yn bobl wyn Prydeinig, Cymreig neu Wyddelig.
- Mae 9% yn siarad Cymraeg yn rhugl. Nid yw 64% ohonynt yn siarad Cymraeg o gwbl.